PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU OEDOLION A CHYMUNEDOL

DYDD LLUN, 26 CHWEFROR 2024

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Taylor (Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Ahmed, Ash-Edwards, Lent, Lewis a/ac McGarry |

34 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Boes a Littlechild.

35 : DATGAN BUDDIANNAU

Doedd dim.

36 : COFNODION

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Rhagfyr 2023 yn gofnod cywir a chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd.

37 : CYNLLUN CORFFORAETHOL DRAFFT 2024-2027 A CHYNIGION CYLLIDEB DRAFFT 2024/25

Dywedodd y Cadeirydd wrth yr Aelodau mai diben yr eitem hon oedd rhoi i'r Aelodau'r cyd-destun ar gyfer craffu ar y rhannau o Gynllun Corfforaethol Drafft y Cyngor ar gyfer 2024-2027 a Chynigion Cyllideb Drafft y Cabinet ar gyfer 2024/25 a oedd mewn perthynas â'r Cyfarwyddiaethau o fewn cylch gwaith y Pwyllgor hwn.

Roedd y cynigion i fod i gael eu hystyried gan y Cabinet ar 29 Chwefror, cyn cael eu hystyried gan y Cyngor ar 7 Mawrth.

Ar gyfer yr eitem hon, croesawodd y Cadeirydd:

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd Chris Weaver | Yr Aelod Cabinet dros Gyllid, Moderneiddio a Pherfformiad |
| Ian Allwood | Pennaeth Cyllid |
| Chris Lee | Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau |

Trosolwg Corfforaethol

Gwahoddwyd y Cynghorydd Weaver i wneud datganiad, lle pwysleisiodd mai hon oedd y gyllideb fwyaf heriol ers iddo fod yn ei rôl. Er gwaethaf cynnydd o 4.3% mewn arian parod yn gyffredinol, roedd angen £57m ar gyfer costau a phwysau cynyddol, yn enwedig mewn addysg a gwasanaethau oedolion a phlant. Roedd y tîm cyllid wedi ystyried gwneud arbedion swyddfa gefn yn gyntaf oll, ac roedd yn cynnig cynyddu'r dreth gyngor 6%, ond byddai newidiadau i wasanaethau hefyd. Roedd yn

bwysig cydbwyso cefnogi gwasanaethau, gwydnwch hirdymor y Cyngor a'r argyfwng costau byw.

Rhoddodd y swyddogion cyllid gyflwyniad yn amlinellu'r themâu allweddol, gan nodi bod disgwyl y setliad cyllid llywodraeth leol terfynol ar 27 Chwefror. Roedd y gyllideb refeniw ddrafft ar gyfer 2024/25 yn gweld pwysau o £57.535m, oherwydd cyfuniad o chwyddiant cyflog, chwyddiant prisiau, ymrwymiadau, ail-aliniadau, pwysau demograffig a phwysau ysgolion.
Roedd y cynigion yn cynnwys £10.47m o arbedion effeithlonrwydd a £2.38m o arbedion corfforaethol, ynghyd â £4.05m o arbedion o gynigion a fyddai'n cael effaith ar lefelau presennol o wasanaeth. Amlinellon nhw gwmpas yr ymgynghoriad a gynhaliwyd ar draws y ddinas a gyda defnyddwyr penodol gwasanaethau.

Gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau, sylwadau ac arsylwadau gan yr Aelodau.

Croesawodd yr Aelodau raddfa’r ymateb i'r ymgynghoriad, a gofynnon nhw sut y gellid cynnal y lefel hon o ymgysylltu yn y dyfodol. Eglurodd yr Aelod Cabinet fod Caerdydd yn tueddu i gael mwy o ymatebion na'r dinasoedd craidd eraill diolch i waith cyfranogiad helaeth drwy gydol y flwyddyn a hyrwyddo'r gyllideb ar-lein yn ogystal â dosbarthu copïau caled mewn adeiladau cyhoeddus. Nododd fod lefelau ymgynghori yn amrywio'n rhannol oherwydd natur yr arbedion arfaethedig, a phe bai setliad gwell y flwyddyn nesaf, gallai hyn arwain at lai o ymatebion.

Ystyriodd yr Aelodau sut y pwysolwyd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn unol â'r broses gwneud penderfyniadau gyffredinol, a dywedwyd wrthynt, ar ôl casglu'r canlyniadau, fod themâu allweddol yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet, gan ystyried pa feysydd a dderbyniodd yr adborth cryfaf gan fod hyn yn nodi pa newidiadau fyddai'n cael yr effaith fwyaf. Pwysleisiodd yr Aelod Cabinet bwysigrwydd ymgynghori yn llywio penderfyniadau mewn ffordd ystyrlon.

Gofynnodd y Pwyllgor am sicrwydd ynghylch risgiau posibl y gostyngiad yng nghyllideb wrth gefn y Gwasanaethau Oedolion, a dywedwyd wrtho fod y gronfa wrth gefn gyffredinol wedi gostwng yn raddol dros y blynyddoedd gyda’r cronfeydd hyn wedi'u buddsoddi mewn gwasanaethau yn lle. Ychwanegodd y swyddogion fod twf cyffredinol cyllideb y Gwasanaethau Oedolion yn golygu nad oedd ganddynt bryder penodol yn y maes hwn.

Ystyriodd yr Aelodau y cronfeydd wrth gefn clustnodedig a'r cwestiwn o ran sut y gwnaed penderfyniadau ynghylch faint a ddefnyddiwyd a beth oedd yn cael ei adael ar ôl. Sicrhaodd y swyddogion y Pwyllgor fod llawer o hyn wedi'i wneud ochr yn ochr â'r gwasanaeth, a bod risgiau’n cael eu monitro a’u hasesu’n gyson.

Ceisiodd y Pwyllgor eglurder ynghylch y goblygiadau i gyflogeion o ran adleoli neu ddileu swyddi, a dywedwyd wrtho fod y cyfanswm disgwyliedig o 62 i'w gadarnhau o hyd. Ychwanegodd y swyddogion ei bod yn debygol y bydd cymysgedd o weithwyr asiantaeth a chontractau byrdymor yn ogystal â swyddi cyfwerth ag amser llawn.

Gofynnodd yr Aelodau sut roedd y cyd-destun ariannol ehangach, yn enwedig yr argyfwng costau byw, yn cael ei gydbwyso â'r gofynion a'r pwysau ar wasanaethau. Sicrhaodd yr Aelod Cabinet y Pwyllgor fod trafodaeth ailadroddol gyson trwy gydol y broses gyllidebol ynghylch y materion yr oeddent am fynd i'r afael â nhw a'r hyn oedd

yn fforddiadwy. Nid oedd yn wyddor fanwl, ac roedd angen trafodaeth lawn a chyflawn ym mhob achos cyn setlo ar ddyraniadau ac arbedion priodol.

Cynigion Drafft Gwasanaethau Oedolion, Tai a Chymunedau

Gwahoddwyd Aelodau'r Cabinet i wneud datganiad agoriadol ar unrhyw gynigion cyllideb neu fanylion y Cynllun Corfforaethol a oedd yn berthnasol i'w portffolio, cyn cwestiynau a sylwadau gan yr Aelodau.

Ar gyfer yr eitem hon, croesawodd y Cadeirydd:

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd Julie Sangani | Yr Aelod Cabinet dros Drechu Tlodi, Cydraddoldeb ac Iechyd y Cyhoedd (Iechyd y Cyhoedd a Chydraddoldeb) |
| Y Cynghorydd Peter Bradbury | Yr Aelod Cabinet dros Drechu Tlodi, Cydraddoldeb ac Iechyd y Cyhoedd (Trechu Tlodi a Chefnogi Pobl Ifanc) |
| Y Cynghorydd Norma Mackie | Yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol (Oedolion) |
| Y Cynghorydd Lynda Thorne | Yr Aelod Cabinet dros Dai a Chymunedau |
| Helen Evans | Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Tai a Chymunedau |
| Jane Thomas | Cyfarwyddwr Oedolion, Tai a Chymunedau |
| Sarah McGill | Cyfarwyddwr Corfforaethol, Pobl a Chymunedau |

Trechu Tlodi, Cydraddoldeb ac Iechyd y Cyhoedd (Iechyd y Cyhoedd a Chydraddoldeb)

Yn ei datganiad agoriadol, tynnodd y Cynghorydd Sangani sylw at yr angen i gynyddu'r cymorth iechyd sydd ar gael i gymunedau ymylol fel ffoaduriaid a cheiswyr lloches, yn ogystal â phobl sy'n cysgu ar y stryd.

Gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau, sylwadau ac arsylwadau gan yr Aelodau.

Roedd prif faes a oedd yn peri pryder i'r Pwyllgor yn ymwneud â gwasanaethau cymorth i ffoaduriaid a cheiswyr lloches, yr oedd y briffiau blaenorol wedi nodi eu bod ar fin torri. Pwysleisiodd y swyddogion fod rheoli'r pwysau hyn yn ganolog i'r cynigion cyllideb a'r Cynllun Corfforaethol, a thynnon sylw at bwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i sicrhau dull cydlynol. Nododd y Pwyllgor ddiffyg buddsoddiad, yn ariannol ac o ran adnoddau, i fynd i'r afael â'r mater hwn, a thynnodd sylw at y goblygiadau pe bai ceisiadau am gyllid grant yn aflwyddiannus.

Gofynnodd yr Aelodau sut y byddai gwersi a ddysgwyd o flynyddoedd blaenorol yn cael eu cymhwyso, a dywedwyd wrthynt fod tîm ymroddedig wedi'i sefydlu i weithio ar y cyd â chydweithwyr tai, gan geisio sicrhau cysylltiad â theuluoedd unigol a goresgyn sefyllfa dai dan bwysau. Roedd yn bwysig sicrhau bod holl dimau'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda'i gilydd i roi cymorth cofleidiol, yn enwedig o ran iechyd a chefnogi pobl i gael gwaith cyflogedig.

Trechu Tlodi, Cydraddoldeb ac Iechyd y Cyhoedd (Trechu Tlodi a Chefnogi Pobl Ifanc)

Yn ei ddatganiad agoriadol, cofiodd y Cynghorydd Bradbury fod llawer o'r materion hyn wedi bod yn ganolog i broses graffu cyllideb y llynedd hefyd. Roedd yn rhaid i'r Cyngor fod yn greadigol ac ystyried yr holl bosibiliadau cyllid oedd ar gael, gan gynnwys y Gronfa Ffyniant Gyffredin, ac roedd wedi edrych yn ofalus ar arbedion effeithlonrwydd staffio. Roeddent wedi bwrw pob targed yn y Cynllun Corfforaethol hyd yma, ac roedd nawr angen ymestyn y targedau hynny heb roi gormod o bwysau ar staff. Roeddent hefyd yn ceisio cynnal y llinellau cyfathrebu a agorwyd yn ystod Covid.

Gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau, sylwadau ac arsylwadau gan yr Aelodau.

Croesawodd yr Aelodau y targedau cynyddol ar gyfer y tîm cynghori ond rhybuddion nhw am effaith bosibl newidiadau staffio ar y pwysau galw newydd hyn. Eglurodd y swyddogion fod llawer o'r swyddi yr oeddent yn cael gwared â nhw wedi bod yn wag ers peth amser, a bod ailstrwythuro wedi digwydd oherwydd y swyddi wedi'u colli.

Trafododd y Pwyllgor bwysau hirdymor wrth i'r argyfwng costau byw barhau i greu trafferthion i bobl. Cytunodd yr Aelod Cabinet fod hyn wedi cynyddu'r galw am hybiau cynghori'n sylweddol, a chodwyd y targedau i gyd-fynd â hynny, ond yn naturiol roedd yn gobeithio y byddai'r argyfwng yn lleddfu a fyddai'n arwain at ostyngiad yn y galw. Teimlai fod angen newid ar lefel genedlaethol i gael arian i bocedi pobl a chulhau'r bwlch.

Cydnabu'r swyddogion fod llai o gyllid ar draws cynlluniau cymorth yn ei gwneud yn anoddach cynnig cymorth ymarferol ond sicrhaon nhw'r Pwyllgor fod y tîm cynghori yn gwybod am yr holl gyfleoedd sydd ar gael a'r ffordd orau o wneud cais amdanynt. Roedd dychwelyd i'r gwaith yn hanfodol, gyda phwyslais ar gyflogaeth dda sy'n talu'n dda i sicrhau sefydlogrwydd.

Gwasanaethau Cymdeithasol (Oedolion)

Yn ei datganiad agoriadol, nododd y Cynghorydd Mackie fod arolwg Holi Caerdydd wedi nodi bod cefnogi oedolion sy'n agored i niwed a hen bobl yn un o'r tair blaenoriaeth uchaf. Roedd y Cyngor am sicrhau y gallai pobl fyw'n dda wrth iddynt heneiddio, gan aros yn annibynnol, yn actif ac yn gysylltiedig â'u cymunedau. Agweddau allweddol ar hyn oedd addasiadau i bobl anabl a mwy o sesiynau digidol, yn ogystal â gweithio'n agos gyda chydweithwyr iechyd a lleihau'r galw trwy bresgripsiynu cymdeithasol effeithiol. Y nod oedd rhoi gofal cynaliadwy o ansawdd uchel tra'n mynd i'r afael ag anghenion y gweithlu a bodloni gofynion ar y gwasanaeth. Ychwanegodd fod strategaeth sy'n deall niwrowahaniaeth yn cael ei datblygu er mwyn bodloni anghenion amrywiol trigolion Caerdydd.

Rhoddodd y swyddogion gyflwyniad ar daliadau arfaethedig am ofal cymdeithasol, nad oeddent wedi cael eu hadolygu ers peth amser. Nid oedd cost yr awr gofal cartref (£10.21) wedi newid ers blynyddoedd lawer, ac roedd Caerdydd yn codi llawer llai nag unrhyw awdurdod lleol arall yng Nghymru, gyda dim ond ychydig yn codi llai na £20 yr awr. Cynigiwyd y byddai ffioedd fesul awr yn cynyddu i £22.36, yn raddol

dros ddwy flynedd gyda chynnydd i £16.38 o fis Ebrill 2024. Gwnaeth Llywodraeth Cymru gapio ffioedd ar £100 yr wythnos ond roedd hyn wrthi’n cael ei adolygu.

Ailadroddodd y swyddogion na fyddai unrhyw un yn gorfod talu mwy nag y gallai ei fforddio yn ôl asesiad ariannol, ac amlinellon nhw’r ymatebion i'r ymgynghoriad, a oedd yn nodi bod mwy na hanner yr ymatebwyr yn cytuno y dylai'r tâl am ofal cartref gynyddu, a bod 75% o blaid cynyddu’r tâl yn raddol. Awgrymodd yr asesiad effaith cychwynnol y byddai'r cynnydd i £16.38 yr awr yn effeithio ar 313 o ddefnyddwyr gwasanaeth, pobl hŷn yn bennaf.

Gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau, sylwadau ac arsylwadau gan yr Aelodau.

Ceisiodd y Pwyllgor eglurder ynghylch union gostau gofal cartref a dywedwyd wrtho fod cymhlethdod y cyfrifiadau yn dibynnu ar amgylchiadau unigol. Eglurodd y swyddogion y byddai'r arbediad rhagamcanol o £300k yn cael ei gyflawni dros ddwy flynedd wrth i'r cynnydd graddol gael ei weithredu.

Ystyriodd yr Aelodau y ffocws ar symud unigolion o lety preswyl i fyw â chymorth, a chawson nhw sicrwydd na fyddai unrhyw un yn cael ei orfodi i symud oni bai ei fod yn dymuno gwneud hynny. Ychwanegodd y swyddogion y gallai'r symud i fyw â chymorth, fel y fflatiau cymdeithas tai newydd yn Llanisien gyda chymorth ar y safle, fod yn gam mawr yn nhaith nifer o unigolion.

Gofynnodd yr Aelodau pa mor gyflawnadwy oedd yr arbedion yn y maes hwn, a dywedwyd wrthynt fod llawer ohonynt yn ymwneud ag ailgomisiynu, felly'r prif bryder oedd amseru yn hytrach na’r gallu i gyflawni.

Nododd y Pwyllgor fod nifer o gynigion yn ymwneud â'r Tîm Ymateb Cymunedol, a oedd eisoes dan bwysau sylweddol. Cadarnhaodd y swyddogion fod yr arbedion yma yn ymwneud â'r swyddfa gefn, gydag adolygiad ehangach yn cael ei gynnal ar yr un pryd.

Croesawodd yr Aelodau ddatblygiad strategaeth niwrowahaniaeth a gwnaethon nhw ganmol mynd ar drywydd prosiectau newydd mewn cyfnod ansicr, ond gofynnon nhw sut y byddai hyn yn cael ei gyflawni heb ddyraniad cyllid ynghlwm. Gwnaeth yr Aelod Cabinet ei chymharu i’r dull o ymdrin â Chaerdydd sy'n Dda i Bobl Hŷn, lle anogwyd busnesau a chyflogwyr i weithio gyda'r Cyngor a sefydlwyd grŵp hollbleidiol hefyd. Nid oedd yn costio unrhyw beth i ystyried sut i ddelio â phobl ag anghenion penodol.

<u>Tai a Chymunedau</u>

Yn ei datganiad agoriadol, dywedodd y Cynghorydd Thorne ei bod yn falch o'u cynnydd wrth fynd i'r afael â digartrefedd a chefnogi pobl agored i niwed i gael llety yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ond roedd mwy o bwysau nag erioed ar y gwasanaethau hyn, ac roedd hyn wedi arwain at ddatgan argyfwng tai yn 2023. Amlinellodd y Cynllun Corfforaethol sut yr oeddent yn bwriadu mynd i'r afael â hyn, gan ganolbwyntio ar atal digartrefedd a datblygu llety dros dro o safon. Roedd y cynllun Gwaith Nwy yn Grangetown bron â chael ei gwblhau, ac roeddent yn datblygu llety arbenigol ar gyfer pobl hŷn, gan alluogi tenantiaid i symud i eiddo llai a rhyddhau cartrefi teuluol. Pwysleisiodd fod buddsoddi mewn cartrefi presennol yr un mor bwysig ag adeiladu rhai newydd, a'u bod yn parhau i ddefnyddio estyniadau

modiwlaidd i atal gorlenwi, gan sicrhau bod cartrefi mor ynni-effeithlon â phosibl, a gweithredu dangosyddion perfformiad allweddol newydd ar gyfer y tîm atgyweiriadau ymatebol.

Rhoddodd y swyddogion gyflwyniad ar arbedion arfaethedig ar draws Hybiau a llyfrgelloedd ar gyfer 2024/25. Roedd y rhain yn cynnwys diwygio amseroedd agor a chau Hybiau, symleiddio'r gwasanaeth llyfrgell deithiol i ganolbwyntio ar drigolion sy'n gaeth i'r tŷ, mwy o ddefnydd o wirfoddolwyr a chael gwared â chopïau caled o bapurau newydd a chyfnodolion o rai llyfrgelloedd. Bwriad yr oriau agor llai oedd cael yr effaith leiaf ar ddefnyddwyr, a byddai'n dychwelyd i'r oriau blaenorol ddwywaith yr wythnos i gynnal hyblygrwydd a hygyrchedd. Byddai'r oriau llai yn galluogi dileu pedair swydd sy’n wag ar hyn o bryd.

Ychwanegodd y swyddogion y byddai ymgynghoriad yn canolbwyntio ar ddefnyddwyr a thrigolion lleol yn rhedeg o 18 Mawrth i 8 Ebrill. Byddai'r canlyniadau'n cael eu gwerthuso ganol mis Ebrill a'u gweithredu ar 20 Ebrill, gan roi mis o rybudd i ddefnyddwyr o unrhyw newidiadau. Ychwanegon nhw y byddai'r papurau newydd a'r cyfnodolion papur yn cael eu disodli gan ddarllenwyr gwasg gan alluogi defnyddwyr i’w cyrchu ar-lein am ddim, ac egluron nhw nad oedd y Gwasanaeth Llyfrgell Deithiol yn darparu gwasanaeth rheolaidd mwyach oherwydd bod y cerbyd a oedd yn cael ei ddefnyddio’n hen iawn ac yn annibynadwy, felly byddai'n defnyddio cerbyd llai a oedd dim ond yn danfon llyfrau i drigolion a oedd yn gaeth i'r tŷ. Byddent hefyd yn cynyddu'r defnydd o wirfoddolwyr, er y byddai hyn yn cael ei wneud drwy beidio recriwtio i rai swyddi pan adawodd pobl felly ni fyddai'r arbedion ar unwaith.

Gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau, sylwadau ac arsylwadau gan yr Aelodau.

Holodd y Pwyllgor y gymhareb gwirfoddolwyr i staff ar draws hybiau a gofynnodd ar ba bwynt y gallai diffyg staff parhaol profiadol fod yn broblem. Eglurodd y swyddogion fod tuedd i fod â 25 i 30 o wirfoddolwyr ar gyfer pob Mentor Gwirfoddoli, a'i fod yn gweithio'n dda iawn ar hyn o bryd er eu bod yn monitro unrhyw effaith negyddol yn ogystal ag agweddau cadarnhaol ar wirfoddoli, fel datblygu sgiliau.

Gofynnodd yr Aelodau am eglurder ar gyllideb refeniw'r gyfarwyddiaeth, gan nodi'r £1.2m mewn costau ychwanegol a'r galw enfawr parhaus am dai, a chawson nhw eu sicrhau bod y swyddogion yn hyderus y gallent fodloni’r angen, ac mai un o gryfderau allweddol y tîm oedd sicrhau cyllid grant. Byddai cynlluniau sydd ar ddod fel y Gwaith Nwy yn eu galluogi i gartrefu pobl mewn ffordd fwy cost-effeithiol.

Ystyriodd y Pwyllgor y gallu i gyflawni Safon Ansawdd Tai Cymru, a dywedwyd wrtho fod disgwyl i hyn fod yn her sylweddol. Nid oedd dyraniad cyllid penodol ynghlwm wrth hyn eto gan nad oedd yn glir faint yn union y byddai'n ei gostio. Ar hyn o bryd Caerdydd oedd yr unig awdurdod lleol a oedd yn bodloni safonau llety Cymru, a gallai arolygu’r holl eiddo i ddarganfod yr hyn oedd angen ei wneud i fodloni'r safon newydd gymryd blynyddoedd. Gwnaeth yr Aelodau gydnabod a chroesawu’r buddsoddiad mewn atgyweiriadau tai cyngor o fewn y Cynllun Corfforaethol.

CYTUNWYD: y byddai’r Cadeirydd, ar ran y Pwyllgor, yn ysgrifennu at yr Aelodau Cabinet er mwyn cyfleu arsylwadau’r Pwyllgor wrth drafod y ffordd ymlaen.

38 : EITEMAU BRYS (OS OES RHAI)

Doedd dim.

39 : Y FFORDD YMLAEN

40 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

18 Mawrth, 4:30pm.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.00 pm.